



Prifysgol Cymru  
Y Drindod Dewi Sant  
University of Wales  
Trinity Saint David

# CYNLLUN RHEOLI YNNI

## 2025-2030

Sefydliad sy'n barod ar gyfer y dyfodol lle mae cynaliadwyedd wedi'i wreiddio ar draws addysg, ymchwil, gweithrediadau ac arfer dyddiol, gan anrhydeddu ein cyfrifoldeb i genedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

Strategaeth Cynaliadwyedd Amgylcheddol Grŵp PCYDDS

## CYNNWYS

<u>1.</u>	<u><a href="#">Cyflwyniad</a></u> .....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
<u>2.</u>	<u><a href="#">Alinio â Strategaeth Cynaliadwyedd Amgylcheddol Grŵp PCYDDS 2025-2030</a></u> .....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
<b>Bookmark not defined.</b>		
<u>3.</u>	<u><a href="#">Adeiladu ar lwyddiant y gorffennol</a></u> .....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
<u>4.</u>	<u><a href="#">Alinio â Strategaeth Llywodraeth Cymru</a></u> .....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
<u>5.</u>	<u><a href="#">Nodau'r Cynllun Rheoli</a></u> .....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
	<u><a href="#">5a. Cydymffurfio</a></u> .....	7
	<u><a href="#">5b Monitro a Mesur</a></u> .....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
	<u><a href="#">5c Effeithlonrwydd Ynni</a></u> .....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
	<u><a href="#">5d Defnydd effeithlon o le</a></u> .....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
	<u><a href="#">5e Safonau Adeiladu a Chynnal a Chadw</a></u> .....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
	<u><a href="#">5f Caffael</a></u> .....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
	<u><a href="#">5g Integreiddio a Chydlynu</a></u> .....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
	<u><a href="#">5h Ymgysylltu â Rhanddeiliaid a'r Gymuned</a></u> .....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
	<u><a href="#">5i Addysg a Hyfforddiant</a></u> .....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
<u>6.</u>	<u><a href="#">Targedau CAMPUS</a></u> .....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
<u>7.</u>	<u><a href="#">Monitro ac Adrodd</a></u> .....	10
<u>8.</u>	<u><a href="#">Dolenni i bolisiau a gweithdrefnau eraill</a></u> .....	11
	<u><a href="#">Cymeradwyo</a></u> .....	<b>Error!</b>
<b>Bookmark not defined.</b>		

**1.**

Pwrpas y ddogfen hon yw nodi ymagwedd ac ymrwymiadau Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant at reoli ynni yn unol â gofynion amgylcheddol, ariannol a deddfwriaethol sy'n cefnogi taith Sero Net y Brifysgol a amlinellir yn Strategaeth Cynaliadwyedd Amgylcheddol 2025-2030 a Chynllun Rheoli Carbon Sero Net 2025-2030 Grŵp PCYDDS.

Mae'r cynllun hwn yn cysylltu'n benodol â Blaenoriaeth Strategol 1 yn y Strategaeth, yn benodol yr ymrwymiad i:

- Leihau'r defnydd o ynni ar draws Ystadau Grŵp PCYDDS
- Cynyddu kWh o ynni o ffynonellau adnewyddadwy sy'n eiddo i'r Grŵp
- Mesur a lleihau effaith amgylcheddol ein gweithrediadau digidol

Mae cynhyrchu ynni sy'n deillio o danwydd ffosil fel glo, olew a nwy, yn allyrru nwyon tŷ gwydr niweidiol ac yn cyfrannu at gynhesu byd-eang. Yn sgil yr argyfwng hinsawdd presennol a natur anwadal gynyddol y farchnad ynni, mae gan PCYDDS gyfrifoldeb moesol, ariannol a deddfwriaethol i leihau ei defnydd o ynni ac allyriadau cysylltiedig.

Mae'r Cynllun Rheoli Ynni yn mapio yn erbyn Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig a bydd gwneud cynnydd yn y maes hwn yn cyfrannu tuag at gyflawni'r nodau hyn.



## 2. Alinio â Strategaeth Cynaliadwyedd Amgylcheddol Grŵp PCYDDS 2025-2030

Mae'r Cynllun Rheoli Ynni hwn yn ddogfen darpariaeth allweddol sy'n cefnogi Strategaeth Cynaliadwyedd Amgylcheddol Grŵp PCYDDS 2025-2030, sy'n trosi uchelgeisiau strategol y Brifysgol yn gamau gweithredu wedi'u targedu ar draws yr ystâd.

Y defnydd o ynni ac allyriadau carbon cysylltiedig yw un o effeithiau amgylcheddol mwyaf arwyddocaol gweithrediadau'r Brifysgol. Felly, mae rheoli ynni yn effeithiol yn ganolog i gyflawni ymrwymïadau lleihau carbon y Brifysgol.

Mae'r Cynllun hwn yn cyfrannu'n uniongyrchol at ddarparu pileri craidd y Strategaeth, sef:

**EIN POBL:** Trwy ymgysylltu â staff a myfyrwyr mewn mentrau lleihau ynni, hyrwyddo llythrennedd carbon, ac ymgorffori rhaglenni newid ymddygiad, mae'r Cynllun yn cefnogi datblygu diwylliant o gynaliadwyedd. Mae hefyd yn galluogi myfyrwyr i ennill profiad ymarferol a sgiliau sy'n cefnogi eu cyflogadwyedd yn y dyfodol mewn economi carbon isel.

**EIN PWRPAS:** Trwy gyflawni gostyngiadau mesuradwy yn y defnydd o ynni ac mewn allyriadau carbon, mae'r Cynllun hwn yn cefnogi ymrwymiad y Brifysgol i gyfrifoldeb amgylcheddol a gweithredu ar newid hinsawdd, gan ymgorffori cynaliadwyedd o fewn y broses o wneud penderfyniadau gweithredol.

**EIN LLE:** Trwy wella effeithlonrwydd ynni ystâd y Brifysgol, mae'r Cynllun hwn yn gwella ansawdd, cyfforddusrwydd a pherfformiad amgylcheddau dysgu a gweithio ar draws campysau PCYDDS, wrth leihau allyriadau carbon a chefnogi nodau datgarboneiddio ehangach.

Mae'r Cynllun Rheoli Ynni hwn wedi'i alinio'n agos â Chynllun Rheoli Carbon Sero Net y Brifysgol a chynlluniau rheoli cynaliadwyedd cysylltiedig, ac yn cefnogi'r gwaith o'u cyflawni. Gyda'i gilydd, mae'r dogfennau hyn yn ffurfio fframwaith integredig ar gyfer cyflawni amcanion cynaliadwyedd PCYDDS.

Trwy'r dull hwn, mae'r Cynllun nid yn unig yn lleihau effaith amgylcheddol a chostau gweithredol ond hefyd yn atgyfnerthu rôl y Brifysgol fel sefydliad cyfrifol, gan gyfrannu at lesiant cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

### 3. Adeiladu ar lwyddiannau'r gorffennol

Y ddogfen hon yw'r Cynllun Rheoli Ynni pwrpasol cyntaf y mae PCYDDS wedi'i gynhyrchu er mwyn ehangu ar lwyddiant blaenorol a darparu goruchwyliaeth ac ymrwymiad wrth reoli ynni. Mae'r cynllun yn ganlyniad i lwyddiannau wrth reoli defnydd ynni'n weithredol ar y campysau. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae PCYDDS wedi:

- 🌱 Cyflawni ei tharged o ostwng allyriadau Cwmpas 1 a 2 o 50% erbyn 2024 (gan ddefnyddio llinell sylfaen 2013/2014) ac mae wedi cynnal y gostyngiad hwn.
- 🌱 Ymgymryd â rhaglen o osod ffotofoltäig ('PV') solar pen tŷ sylweddol sy'n cynhyrchu 186 mWh trwy solar pen tŷ yn 2023, gan godi i 331 mWh yn 2024 gyda'r potensial o 650mWh wedi'i ragweld ar gyfer 2025.
- 🌱 Ymgysylltu â thrydydd parti mewn pecyn meddalwedd a gefnogir gan AI i ddadansoddi'r defnydd o nwy ar draws yr ystâd a hysbysu'r tîm Ystadau am unrhyw achosion o orddefnydd.



#### 4. Aliniad â Strategaeth Llywodraeth Cymru




Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targedau uchelgeisiol er mwyn symud Cymru i system ynni carbon isel. Mae'r rhain yn cynnwys cynhyrchu 70% o'r trydan a ddefnyddir o ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2030 a 100% erbyn 2035, ochr yn ochr â chyflawni o leiaf 1.5 GW o gapasiti ynni adnewyddadwy lleol erbyn 2045. Ar yr un pryd, mae angen twf sylweddol mewn gwres carbon isel, gyda thargedau sy'n cyfateb i 5.5 GW o gapasiti pwmp gwres erbyn 2035 ac uchelgais y bydd tua thraean o gartrefi yn defnyddio pypiau gwres. Bydd cyflawni'r canlyniadau hyn yn gofyn am gynydd cyflym yn y defnydd o ynni adnewyddadwy, trydaneiddio systemau gwresogi a datblygu sgiliau a seilwaith ategol ar draws Cymru.

Mae Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (PCYDDS) yn cydnabod ei rôl wrth gefnogi datgarboneiddio cenedlaethol a thrawsffurfio'r system ynni a amlinellwyd gan Lywodraeth Cymru yn adroddiad *Cynhyrchu a Defnyddio Ynni yng Nghymru (2026)*.

##### Cynhyrchu Ynni Adnewyddadwy

Mae Cymru wedi ymrwymo i gynhyrchu'r hyn sy'n cyfateb i 100% o'r trydan mae'n ei ddefnyddio o ffynonellau adnewyddadwy, ochr yn ochr â chynyddu'r ynni a gynhyrchir drwy berchnogaeth leol. Disgwylir i'r sector cyhoeddus chwarae rôl flaenllaw wrth gyflawni'r trawsnewidiad hwn.





Bydd PCYDDS yn cyfrannu trwy:

-  Ehangu ynni adnewyddadwy ar y safle gan adeiladu ar y defnydd o baneli solar ffotfoltäig presennol ar draws yr ystâd.
-  Archwilio modelau ynni lleol a chymunedol, gan gefnogi uchelgeisiau Llywodraeth Cymru ar gyfer perchnogaeth leol.
-  Systemau ynni clyfar, gan gynnwys storio ac ymateb i'r galw, er mwyn gwella hyblygrwydd y system.

##### Datgarboneiddio Gwres



Mae'r trawsnewid o wresogi gyda thanwydd ffosil i ddewisiadau amgen carbon isel, yn enwedig pypiau gwres, yn flaenoriaeth genedlaethol, gyda tharged gan Lywodraeth Cymru o 580,000 erbyn 2035.

Bydd PCYDDS yn cefnogi hyn drwy:

-  Ddefnyddio Pypiau Gwres Ffynhonnell Aer ar draws yr ystâd lle bo'n bosibl
-  Mabwysiadu ymagwedd gwneuthuriad yn gyntaf at leihau'r galw am wres a gwneud y gorau o berfformiad y system
-  Cyflwyno prosiectau arddangos, gan gynnwys mewn adeiladau cymhleth a threftadaeth
-  Cynllunio ar gyfer uwchraddio'r seilwaith trydanol sydd ei angen i gefnogi trydaneiddio gwres

##### Sgiliau ac Addysg

Mae mynd i'r afael â'r bylchau sgiliau yn hanfodol i gyflawni trawsnewidiad ynni Cymru. Fel sefydliadau addysg uwch, bydd PCYDDS yn:

-  Ymgorffori ynni adnewyddadwy a datgarboneiddio o fewn cwricwla
-  Defnyddio'r ystâd fel labordy byw, gan ddarparu cyfleoedd dysgu ymarferol

- 🌱 Cydweithio â phartneriaid diwydiant a sector cyhoeddus i gefnogi dulliau arloesi a datblygu sgiliau

## 5. Nodau'r Cynllun Rheoli

Mae nodau'r Cynllun Rheoli Ynni hwn wedi'u hamlinellu isod. Mae'r rhain yn seiliedig ar Strategaeth Cynaliadwyedd Amgylcheddol 2025-2030 a Chynllun Rheoli Carbon 2025-2030 Grŵp PCYDDS. Bydd y nodau hyn yn cael eu hadolygu a'u hehangu wrth i'r brifysgol agosáu at 2030.

### 5a. Cydymffurfio

Rhaid bodloni, a lle bo'n ymarferol, rhagori ar gydymffurfiaeth ddeddfwriaethol a mewnol sy'n ymwneud ag effeithlonrwydd ynni ac adrodd arno. Mae hyn yn cynnwys yr holl ofynion adrodd i Lywodraeth Cymru, MEDR a HESA.

### 5b Monitro a Mesur

Mae mesur, monitro a dilysu'r defnydd o drydan a nwy yn flaenoriaeth allweddol wrth rheoli ynni. Nid yn unig mae hyn yn galluogi meintioli defnydd, ond hefyd yn caniatáu adrodd ar allyriadau yn fewnol ac yn allanol. Dros gyfnod y cynllun hwn bydd PCYDDS yn cynyddu ei seilwaith is-fesuryddion i fonitro defnydd yn fwy cywir gyda'r nod o nodi a lleihau'r defnydd o wastraff.

### 5c Effeithlonrwydd Ynni

Mae System Rheoli Adeiladau (BMS) yn chwarae rhan bwysig wrth reoli ynni ar draws ystâd. Ar gyfer PCYDDS nid yw'r System Rheoli Adeiladau'n cael ei rheoli drwy un system ac mae'n cynnwys gwahanol darparwyr sy'n golygu bod gan rai adeiladau fynediad o bell yn y cwmwl ac eraill yn gorfod cael eu haddasu ar y safle ac mae yna adeiladau eraill sy'n dal i fod heb System Rheoli Adeilad o gwbl. Lle mae ar waith, mae angen monitro'r systemau yn weithredol ac mae angen integreiddio systemau adeiladu eraill fel systemau gwresogi, awyru ac aerdymheru (HVAC).

Bydd mesurau effeithlonrwydd ynni confensiynol fel gwella insiwleiddio a disodli goleuadau gydag LED hefyd yn cael eu defnyddio yn unol â Chynllun Adeiladu ac Adnewyddu Cynaliadwy 2025-2030 i wella effeithlonrwydd ynni'r Ystâd.

### 5d Defnydd effeithlon o le

Mae defnyddio gofod effeithlon yn hanfodol ar gyfer unrhyw fentrau cadwraeth ynni. Mae gwresogi ac oeri gofodau gwag neu rai nad ydynt yn cael eu defnyddio'n ddigonol yn defnyddio ynni diangen ac felly mae rheoli'r defnydd o ofodau trwy lywodraethu effeithiol a defnyddio gofodau yn y ffordd orau bosib yn rhan sylweddol o'r cynllun i leihau'r defnydd o ynni ac allyriadau carbon. Ar adeg ysgrifennu'r cynllun hwn, mae tîm ystadau'r brifysgol wrthi'n gosod synwryddion defnydd gofod ar draws yr ystâd. Mae angen bwydo'r data a gesglir o'r synwryddion hyn i strategaethau lleihau ynni.

Mae angen ystyried ad-drefnu gofodau hefyd fel offeryn rheoli ynni a defnyddio llai o adeiladau. Unwaith y bydd yn gwbl weithredol, bydd allbwn data'r synwryddion defnydd gofod hyn yn hanfodol wrth reoli ynni gofodau'n effeithiol.. Dylid ystyried bod effeithlonrwydd ynni adeiladau yn ffactor wrth wneud penderfyniadau ynghylch ad-drefnu'r ystâd.

### 5e Safonau Adeiladu a Chynnal a Chadw

Fel y nodir yng Nghynllun Adeiladu ac Adnewyddu Cynaliadwy 2025-2030, bydd ystyriaethau amgylcheddol yn sail i'r holl benderfyniadau sy'n ymwneud â datblygiadau campysau yn y dyfodol, gan gynnwys adeiladu, adnewyddu a newid defnydd. Wrth adeiladu adeiladau newydd, bydd mesurau arfer gorau o ran effeithlonrwydd ynni, fel inswleiddio a pherfformiad thermol, yn cael eu dilyn i leihau'r allyriadau gweithredol dros gyfch bywyd yr adeilad. Mae hyfforddiant, arweiniad ac

integreiddio safonau cynnal a chadw arfer gorau yn hanfodol ar gyfer llwyddiant unrhyw fentrau lleihau ynni.

### 5f Caffael

Rhaid i bob gweithgaredd caffael gydymffurfio â'r Rheoliadau Ariannol Prifysgolion yn gyntaf oll. Bydd effeithlonrwydd ynni yn cael ei ystyried fel rhan o'r asesiad cynaliadwyedd ym mhroses dendro'r holl gyflenwyr gwasanaethau caled a meddal. Trwy'r Asesiad o'r Effaith ar Gaffael Cynaliadwy, bydd y timau cynaliadwyedd a chaffael yn gweithio gyda'i gilydd i gefnogi prynwyr ar safonau gofynnol. Bydd y Brifysgol hefyd yn ystyried y ffordd orau o gaffael ei hynni, gan daro cydbwysedd rhwng cost a ffynhonnell ynni. Fel rhan o hyn, gallai'r brifysgol ystyried cynhyrchu trydan carbon isel i sero ar y safle / oddi ar y safle a / neu gytundebau prynu pŵer i gyflenwi ynni adnewyddadwy.

### 5g Integreiddio a Chydlynw

Gall y drefn y mae mesurau'n cael eu hystyried gael effaith ar yr arbedion o ran allyriadau carbon gweithredol o'i gymharu â chostau. Gall lleihau uchafswm llwyth gwres yr adeilad trwy fesurau gwella ffabrig a rheolaethau gwell arwain at systemau llai ar gyfer pwmpio gwres o'r aer (ASHP) ac uchafswm llwythi trydanol is. Felly, gall buddsoddi yn y mesurau hyn osgoi cost uwchraddio offer a foltedd mwy. Yn yr un modd, bydd newid o systemau gwresogi a dŵr poeth nwy i systemau sy'n cael eu gyrru gan drydan ond yn arwain at arbedion carbon sylweddol os yw'r trydan yn garbon isel neu'n ddi-garbon, neu'n cael ei gynhyrchu gan y Brifysgol oherwydd fel arall fe all fod yn gostus heb fawr o fudd.

### 5h Ymgysylltu â Rhanddeiliaid a Chymunedau

Mae ymgysylltu â'r gymuned a rhanddeiliaid yn chwarae rhan allweddol wrth reoli ynni'n llwyddiannus. Mae gan fentrau ac ymgyrchoedd sy'n addysgu ac yn grymuso staff a myfyrwyr i weithredu botensial i gael effaith gadarnhaol sylweddol ar y defnydd o ynni ar gampysau (a thu hwnt). Amlinellir hyn ymhellach yng Nghynllun Gweithredu Ymgysylltu â Chynaliadwyedd 25-30. Mae cyfathrebu effeithiol â rhanddeiliaid allweddol yn sicrhau bod partion perthnasol yn cael eu hysbysu am ein hymrwymiaadau a'n cynlluniau.

### 5i Addysg a Hyfforddiant

Bydd y Brifysgol hefyd yn defnyddio mentrau rheoli ynni fel cyfleoedd i gefnogi dysgu, ymchwil a chyflogadwyedd myfyrwyr gan ymgorffori heriau cynaliadwyedd y byd go iawn yn y cwricwlwm a'r gweithgarwch cyd-gwricwlaidd. Mae myfyrwyr hefyd yn cymryd rhan mewn archwiliadau ynni a rhaglenni newid ymddygiad.

## 6. Targedau CAMPUS

Er mwyn rheoli'n rhagweithiol yr holl dargedau CAMPUS (Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol, Synhwyrol) ar gyfer Cynlluniau Rheoli sy'n gysylltiedig â Chynaliadwyedd, mae'r targedau sy'n ymwneud â'r cynllun hwn yn cael eu cadw yn y ddogfen "Targedau CAMPUS Cynaliadwyedd PCYDDS".

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys person cyfrifol, rhanddeiliaid, mecanwaith adrodd a chatau gweithredu ar gyfer pob blwyddyn o'r cynllun hwn. Mae'r rhain wedi'u halinio â'r cynllun hwn a thargedau datgarboneiddio'r Sector Cyhoeddus Llywodraeth Cymru. Maent yn cynrychioli cymysgedd o newidiadau seilwaith ymarferol, newidiadau ymddygiadol a strategaethau ymgysylltu i sicrhau dull systematig o leihau allyriadau carbon.

Gellir dod o hyd i'r targedau yma:






[https://uowtsd.sharepoint.com/teams/Sustainability\\_7fuztl\\_GRP/Shared%20Documents/General/Policy%20&%20Strategy/Strategy%202025-2030/UWTSD\\_SMART\\_Targets.xlsx](https://uowtsd.sharepoint.com/teams/Sustainability_7fuztl_GRP/Shared%20Documents/General/Policy%20&%20Strategy/Strategy%202025-2030/UWTSD_SMART_Targets.xlsx)

## 7. Monitro ac Adrodd



Bydd monitro perfformiad carbon yn gweithredu o fewn y fframwaith llywodraethu a sefydlwyd o dan 'Blaenoriaeth Strategol 6: Monitro ac Adrodd' Strategaeth Cynaliadwyedd Amgylcheddol Grŵp PCYDDS.

Bydd goruchwyliaeth yn dilyn model sicrwydd tair llinell y Grŵp:




### Goruchwyliaeth Weithredol

-  Pennaeth Cynaliadwyedd ac Amgylchedd
-  Cyfarwyddwr Ystadau
-  Grŵp Llywio Cynaliadwyedd (SSG)
-  Cynllun Gweithredu Integreiddio i Gynaliadwyedd
-  Adrodd ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol (KPI) yn dymhorol




### Goruchwyliaeth Lywodraethu

-  Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad
-  Cyngor y Brifysgol

### Sicrwydd Allanol

-  System Rheolaeth Amgylcheddol y Ddraig Werdd Lefel 5
-  Archwiliad allanol blynyddol
-  Adroddiadau HESA

Bydd cynnydd yn cael ei:

-  Adrodd yn flynyddol trwy Adroddiad Cynaliadwyedd PCYDDS
-  Integreiddio i ddangosfyrddau Dangosyddion Perfformiad Allweddol sefydliadol
-  Alinio â fframweithiau cydnabyddedig fel SBTi, lle y bo'n briodol

## 8. Cysylltiadau â pholisïau a gweithdrefnau eraill

Mae cyfres o gynlluniau rheoli Cynaliadwyedd wedi'u datblygu ar gyfer y cyfnod 2025-2030:

- 🌱 Strategaeth Cynaliadwyedd Amgylcheddol Grŵp PCYDDS 25-30
- 🌱 Cynllun Rheoli Carbon 25-30
- 🌱 Cynllun Gweithredu Ymgysylltu â Chynaliadwyedd 25-30
- 🌱 Cynllun Adeiladu ac Adnewyddu Cynaliadwy 25-30
- 🌱 Cynllun Teithio Cynaliadwy 25-30
- 🌱 Cynllun Rheoli Gwastraff 25-30
- 🌱 Cynllun Rheoli Dŵr 25-30
- 🌱 Cynllun Bwyd Cynaliadwy 25-30
- 🌱 Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth 25-30

Awdur(on) y polisi:

**Dan Priddy**

**Teitl Swydd:** Pennaeth Cynaliadwyedd a'r Amgylchedd.

Wedi'i gymeradwyo gan:

**Peter Mannion**

Prif Swyddog Gweithredu | Cadeirydd y Grŵp Llywio Cynaliadwyedd

**Dyddiad:** 01/06/2026

## Rheolydd fersiwn y ddogfen

Rhif Fersiwn:	Rheswm dros newid:	Awdur:	Dyddiad newid:

Statws cyfredol y Polisi: cymeradwywyd

A yw'r Polisi yn berthnasol i: AU

Dyddiad cadarnhau: 01 / 06 / 2026

Dyddiad yn effeithiol o: 01 / 06 / 2026

Dyddiad adolygu polisi: 01 / 06 / 2027

I'w gyhoeddi: ar wefan PCYDDS



**Prifysgol Cymru**  
Y Drindod Dewi Sant  
**University of Wales**  
Trinity Saint David